

CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

Blwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024.

Dyddiad cyhoeddi – 16 Mehefin 2024

Bob blwyddyn, archwilir y cyfrifon blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae unrhyw berson â diddordeb yn cael cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac yn y blaen sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

Nia Jones, Clerc Cyngor Cymuned Llanllyfni,
cyngorcymunedllanllyfni@gmail.com

Rhwng yr oriau o 1700 a 2000 o ddydd Mawrth i ddydd Iau

Yn dechrau ar 1 Gorffennaf 2024 ac yn dod i ben ar 26 Gorffennaf 2023.

O 12 Medi 2024, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:

- Yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon.
- Yr hawl i ddod gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a mynegi gwrthwynebiad i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngor Cymunedol, Archwilio Cymru, 1 Prifddinas-Chwarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu drwy e-bost yn communitycouncilaudits@audit.cymru.

Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.